



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun cydnabyddiaeth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol

Ffurflen Apêl Cam 2

Mae awdurdodau lleol yn gweinyddu'r taliad i weithwyr gofal cymdeithasol ar ran Gweinidogion Cymru. Mae canllawiau llawn ar y cynllun ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

<https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i>

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen pob rhan o'r canllawiau cyn llenwi'r ffurflen hon.

Dylech lenwi'r ffurflen hon dim ond os yw POB UN o'r isod yn wir

- rydych yn credu eich bod yn gymwys i gael y taliad o fewn telerau'r cynllun a amlinellwyd yn y canllawiau
- mae eich cais am y taliad wedi'i wrthod gan yr awdurdod lleol perthnasol
- rydych wedi gwneud cais i'r awdurdod lleol o dan Gam 1 y broses Apeliadau drwy gyflwyno ffurflen gais i Ailystyried (Ar gael gan yr awdurdod lleol)
- mae'r awdurdod lleol wedi ailystyried eich cais ac wedi'i wrthod
- nid ydych yn fodlon gyda'r ymateb ac yn dymuno symud i Gam 2 y broses Apêl

- rydych yn deall NA ALL y Panel Apêl newid y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y taliad.

Byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn y ceisiadau. Efallai y bydd angen inni gysylltu â chi i gael rhagor o wybodaeth. Pan fyddwn wedi cael yr wybodaeth hon ein nod yw dod i benderfyniad ynglŷn â'ch apêl o fewn 10 diwrnod gwaith.

Llenwch y ffurflen yn electronig neu ysgrifennwch yn glir (wrth wneud hynny, ystyriwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ddiwedd y ffurflen hon)

Rhan A – Manylion personol
Enw llawn:
Dyddiad geni:
Cyfeiriad cartref:
Rhif ffôn yn ystod y dydd:
E-bost:

Mae Rhan B yn cyfeirio at eich cyflogwr o 1 Mehefin 2020 i 28 Chwefror 2021.

Os gwnaethoch adael neu newid eich swydd yn ystod y cyfnod hwn, nodwch y cyflogwr cyntaf lle roedd gennych swydd gymwys ac unrhyw fanylion pellach ar gais.

Os ydych yn weithiwr asiantaeth, rhowch fanylion eich asiantaeth o dan 'Cyflogwr' a manylion eraill ar gais.

Ar gyfer pob ymgeisydd arall, llenwch Ran B gyda manylion y swydd y credwch sy'n eich gwneud yn gymwys am y taliad. Os oedd gennych chi fwy nag un swydd rhwng 1 Mehefin 2020 a 28 Chwefror 2021 sy'n eich gwneud yn gymwys, llenwch Ran B gan roi manylion y cyflogwr cyntaf yn ystod y cyfnod hwn.

Rhan B – Cyflogaeth
Cyflogwr (cwmni neu sefydliad):
Cyfeiriad:
Enw'r rheolwr llinell:
Rhif ffôn y rheolwr llinell:
Cyfeiriad e-bost y rheolwr llinell:
Teitl eich swydd:

Dyddiad dechrau yn y swydd:

Dyddiad gorffen yn y swydd (os yw'n berthnasol):

Cadarnhewch a oeddech wedi eich cyflogi fel:

- Gweithiwr cyflogedig awdurdod lleol o fewn y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol
- Gweithiwr cyflogedig awdurdod lleol o fewn y gyfarwyddiaeth dai gyda rôl benodedig fel gweithiwr allgymorth a/neu mewn llety argyfwng
- Gweithiwr cyflogedig un cartref gofal cofrestredig
- Gweithiwr cyflogedig mewn gwasanaeth cymorth cartref
- Gweithiwr gofal cymdeithasol rheng flaen sy'n darparu gwasanaeth yn y sector preifat/trydydd sector
- Rheolwr llinell uniongyrchol ar gyfer staff gofal cymdeithasol rheng flaen yn y sector preifat/trydydd sector

Ar gyfer gweithwyr asiantaeth yn unig

Rhowch wybod inni am eich swydd asiantaeth gymwys gyntaf o 1 Mehefin 2020 i 28 Chwefror 2021.

Cyflogwr:

Rheolwr:

Manylion cyswllt (os yw'n bosibl):

Swydd:

Dyddiadau yn y swydd asiantaeth hon:

Os gwnaethoch newid eich swydd rhwng 1 Mehefin 2020 a 28 Chwefror 2021

rhowch yr wybodaeth berthnasol yma:

Rhan C – apêl Cam 1

Pa awdurdod lleol wnaeth ailystyried eich cais am daliad o dan Gam 1 o'r broses apêl:

Dyddiad yr ohebiaeth gan yr awdurdod lleol yn gwrthod eich apêl:

Y rheswm a roddwyd dros wrthod:

Rhan D – apêl Cam 2

Esboniwch pam yr ydych yn credu eich bod yn gymwys am y taliad:

A oes gwybodaeth arall, neu berson arall, a fyddai'n cefnogi eich cais?
Os oes, nodwch y manylion:

Llofnod:

Enw (printiwch):

Dyddiad:

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Mae cwblhau'r ffurflen hon yn ei gwneud yn ofynnol ichi ddarparu data personol. Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer yr wybodaeth hon a byddwn yn ei phrosesu yn unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol a roddwyd inni at ddibenion ystyried eich apêl yn unig.

Ar ôl cyflwyno'r ffurflen, dim ond hyd nes y caiff ei hystyried gan y panel apêl y cewch gyfle i ddiwygio'r data a gynhwysir arni. Os na fyddwch yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol y gofynnir amdani ar y ffurflen hon ni fydd Llywodraeth Cymru yn gallu ystyried eich apêl.

Dim ond panel apeliadau Llywodraeth Cymru fydd yn gweld eich data a bydd y panel yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru yn ogystal ag aelodau annibynnol sydd â phrofiad yn y sector gofal. Ni chaiff eich data eu rhannu ag unrhyw sefydliad arall.

Bydd eich data'n cael eu storio'n ddiogel gan Lywodraeth Cymru am ddwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, gallwch ofyn i Lywodraeth Cymru am gopi o'r wybodaeth sydd gennym yr ydych wedi'i chyflwyno inni mewn perthynas â'r apêl hon neu ofyn inni ddileu eich data.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch gan Lywodraeth Cymru, a chael gafael arnynt
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac yn ei defnyddio, neu os ydych am ddefnyddio'ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Rhif ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

Llenwch y ffurflen hon a'i hanfon yn ôl electronig, os yw'n bosibl, at:

RecognitionPaymentAppeals@gov.wales

neu ei phostio at:

Denise Moultrie – Cynllun Taliad Arbennig i Weithwyr Gofal Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ